

Request for Information – reference ATISN 16774

Find below all e mail correspondence captured by your request.

All e mail correspondence between Jeremy Miles MS in his position as Minister of Education and the Welsh Language and the organisation Stonewall over the 2021-2022 time period.

Date of e mail	Sent from	Received by	Text of e mail	Attachment included
20.07.21	Stonewall	Diary Secretary Jeremy Miles	Annwyl _____ a Jeremy, Diolch yn fawr iawn i chi am sesiwn difyr iawn. Roedd clywed am eich profiadau a'ch syniadau am sut i wneud addysg gynhwysol yn realiti yn hynod o ysbrydoledig. Mi fydd y recordiad yn cael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol yr Eisteddfod a Mas ar y Maes ar _____. Diolch yn fawr iawn i chi eto. Diolch /	No
20.07.21	Stonewall	Diary Secretary Jeremy Miles	Helo _____ Gobeithio eich bod yn iawn. Dim ond cadarnhau bod popeth yn iawn gyda threfniadau heddiw? Edrychaf ymlaen at gyfarfod â'r Gweinidog am _____. Diolch	No
19.07.21	Stonewall	Diary Secretary Jeremy Miles	Annwyl _____ Diolch yn fawr unwaith eto am ein cynorthwyo gyda threfniadau ar gyfer yfory. Dyma ragor o wybodaeth i chi am y sesiwn. Dyma gopi o'r e-bost yr wyf wedi'i anfon at y bobl ifanc. Gobeithio bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw barataodau briffio ar gyfer y Gweinidog. Fe ddylai bod linc ymuno wedi eich cyrraedd yn barod. Rhowch wybod os oes problem. Diolch yn fawr iawn i chi am gytuno i gymryd rhan yn y sesiwn yfory. Sesiwn Mas ar y Maes fel rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol eleni yw'r sesiwn. Mae Maes ar y Maes yn bartneriaeth rhwng Stonewall Cymru a'r Eisteddfod ac wedi'i sefydlu er mwyn dathlu pobl a hunaniaethau LHDTTC+ yng Nghymru. O ran y sesiwn fory, dyma i chi'r blurb swyddogol dw i wedi'i rannu hefo'r Eisteddfod. Stonewall Cymru : LHDTTC+ mor hawdd ag un, dau, tri Mae addysg yn newid yng Nghymru. Mewn trafodaeth gyda phanel o bobl ifanc cawn glywed pam bod cynnwys hunaniaethau LHDTTC+ o fewn ein hysgolion yn fwy pwysig nag erioed. Rhwng 1988 a 2003 roedd hi'n anghyfreithlon i sôn am bobl LHDTTC+ mewn ysgolion. Wyth mlynedd ers gwrthdroi'r ddeddf oedd yn nadu hyn, be sydd gan bobl ifanc i'w ddweud am gynnwys pobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol, traws a chwiar yn y cwricwlwm newydd? Byddwn yn recordio'r sesiwn hanner awr Dydd Mawrth am 13:15. <u>Mae linc wedi ei anfon i'ch cyfeiriad e-bost gan yr Eisteddfod. Eich e-bost yma fydd yn derbyn y linc. Os nad ydych wedi derbyn linc – plis cysylltwch.</u> Ar y panel fydd: <ul style="list-style-type: none"> • _____ • _____ • _____ • Jeremy Miles MS, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru • _____ Dyma syniad o strwythur y sesiwn: <ul style="list-style-type: none"> • _____ i agor y sesiwn a rhoi cefndir i'r sesiwn, a chyflwyno'r panelwyr. Gan yna, yn eu tro, gwahodd pob panelydd i sgwrsio am ddau funud am eu cefndiroedd, a pham bod cael addysg gynhwysol yn bwysig iddyn nhw. (10 munud) 	No

			<ul style="list-style-type: none"> • Gwahodd y gweinidog i sôn ychydig am y cwricwlwm a'r newidiadau (2 funud) • Profiadau pawb ar y panel o ba mor gynhwysol oedd/ydy eu hysgolion nhw (5 munud) • Be yn union mae pobl ifanc eisïau pan mae nhw'n sôn am 'dysgu am stwff LHDTC+?' a be sydd angen newid? (5 munud) • Sut all pobl ifanc, athrawon ac ysgolion mynd ati i wneud eu hysgolion yn fwy cynhwysol ar gyfer pobl ifanc LHDTC+ a'u teuluoedd? (5 munud) • Sylwadau i gloi (tua 3 munud) <p>Gobeithio bod hyn yn rhoi ddigon o wybodaeth i chi er mwyn paratoi at yfory, os yda chi angen rhagor o wybodaeth, plis cysylltwch dros e-bost.</p> <p>Bydd y sesiwn yn cael ei rannu fel rhan o Eisteddfod Amgen a Mas ar y Maes ar _____.</p> <p>Diolch yn fawr iawn i chi am gytuno i gymryd rhan. Hwyl Diolch / Thank you,</p>	
15.07.2022	Stonewall	Diary Secretary Jeremy Miles	<p>Annwyl _____</p> <p>Diolch yn fawr am eich ymateb a diolch hefyd i'r Gweinidog am ei barodrwydd i gymryd rhan. Dw i ar hyn o bryd yn ceisio cadarnhau'r amser gyda'r criw oeddwn wedi'w neilltuo i eistedd ar y panel yn wreiddiol. Mae rhai wedi gorfod gwrthod oherwydd argaeledd, ond dw i'n gwneud trefniadau arall. Felly mi wnai gadarnhau yn union pwy fydd ar y panel cyn gynted a phosib. Diolch o galon. Diolch / Thank you,</p>	No
15.07.2022	Diary Secretary Jeremy Miles	Stonewall	<p>Annwyl _____</p> <p>Diolch am eich gwahoddiad at y Gweinidog i gymryd rhan yn y panel trafod Mas ar y Maes. Mae'r Gweinidog yn hapus i gymryd rhan ond oherwydd ymrwymïadau y dyddiadur, yr unig amser sydd gyda ni i gynnig am y recordio yw _____. Os ydy'r amser yma yn bosib allen ni cadarnhau ond fel arall bydd rhaid anfon ymddiheuriadau yn anffodus. Ydy'r amser yma yn edrych yn bosib i chi? Mae'n flin gen i am yr amser byr i'w drefnu.</p> <p>Gyda diolch</p>	No
13.07.2022	Stonewall	Diary Secretary Jeremy Miles	<p>Annwyl Weinidog,</p> <p>Ysgrifennaf atoch parthed gweithgarwch Mas ar y Maes yn yr Eisteddfod Amgen eleni. Fel maen siŵr eich bod eisoes yn ymwybodol, mae Mas ar y Maes yn bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Stonewall Cymru a'r gymuned LHDTC+. Yn flynyddol, ers 2018, mae'r Eisteddfod wedi bod yn dathlu cyfraniadau, hunaniaethau a diwylliant pobl LHDTC+ drwy raglen o weithgareddau a digwyddiadau a chaiff ei gydlynu oddi dan faner Mas ar y Maes. Rydym yn barod wedi bod yn ddigon ffodus i gydweithio â chi yn Eisteddfod Llanrwst 2019, a gobeithio y bydd modd cydweithio eto eleni.</p> <p>O ganlyniad i'r datblygiadau syfrdanol a chyffrous sy'n digwydd ym myd addysg a'r cwricwlwm, rydym yn awyddus i gynnal panel trafod i sgwrsio am gynhwysiant LHDTC+ yng Nghwricwlwm Cymru gyda disgyblion o grŵp _____ a ddau o gynrychiolwyr ifanc LHDTC+ o'r _____ (_____).</p> <p>Hoffwn felly estyn gwahoddiad cynnes i chi ymuno yn y digwyddiad drwy eistedd ar y panel a chyfrannu eich safbwyntiau personol a llywodraethol am bwysigrwydd addysg sy'n gynhwysol o bobl LHDTC+.</p> <p>Byddwn yn recordio'r sesiwn 45 munud ar Zoom dros yr wythnosau nesaf gyda'r nod o'i ddarlledu am _____ fel rhan o arlwy Mas ar y Maes, Eisteddfod Amgen.</p>	No

			<p>Os hoffech gymryd rhan, gofynnaf yn garedig i chi ddarparu eich argaeledd ar gyfer recordio'r sesiwn, mi af yna ati i gydlynu gyda'r bobl ifanc. Edrychaf ymlaen at eich ymateb. Cofion cynnes,</p>	
--	--	--	--	--